Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i:**

## Adroddiad Sbotolau Effeithlonrwydd: Effaith recriwtio a chadw ar y system cyfiawnder troseddol

Rwy'n croesawu'r adroddiad a chanfyddiadau'r adroddiad sbotolau effeithlonrwydd hwn ar faes eithriadol o bwysig ar gyfer plismona. Codwyd yr adroddiad sbotolau fel pwnc i'w drafod mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona ar 14 Mawrth 2024. Hwn yw'r fforwm lle rwy'n dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflenwi gwasanaethau plismona ledled ardal Dyfed-Powys.

Y canlyniad cyffredinol yn yr adroddiad yw bod angen i bob asiantaeth gael y bobl iawn yn gwneud y swydd iawn er mwyn i'r System Cyfiawnder Troseddol fod yn effeithiol.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi buddsoddi yn y maes hwn ac yn gweithio ar ddeall pam mae staff yn gadael. Dechreuodd swyddog lles a chadw ei swydd ym mis Medi 2023 er mwyn cynorthwyo â'r broses hon.

Roedd staff penodol yn sgwrsio gyda swyddogion yn eu cyfnodau prawf a blynyddoedd cynnar, gan gynnwys swyddogion a oedd yn ystyried gadael yn agored yn ogystal â'r rhai oedd ddim. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gefnogi ymhellach gan y swydd caffael talent sy'n cael ei hysbysebu ar hyn o bryd.

Mae llwybrau mynediad i'r Heddlu wedi'u nodi fel ffactor cyfrannol. O'r herwydd, mae'r Prif Gwnstabl yn adolygu ffyrdd o wella'r cynnig presennol. Bydd fy swyddfa'n ceisio sicrhau bod canlyniadau'r adolygiad hwn yn cael eu cyflwyno mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona yn y dyfodol ar gyfer goruchwyliaeth.

Mae goruchwylwyr Heddlu Dyfed-Powys yn cymryd rhan mewn cyrsiau arweinyddiaeth er mwyn sicrhau bod y sgiliau a'r hyfforddiant gofynnol gyda nhw i gyflawni eu swydd. Mae'r Heddlu hefyd yn ystyried ei broses adolygu datblygiad personol er mwyn sicrhau ei bod mor effeithiol â phosibl ac yn cael ei gwerthfawrogi gan swyddogion a staff.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn cydnabod pwysigrwydd recriwtio a chadw'r bobl iawn i gyflawni pob swydd. Yr wyf wedi fy sicrhau bod yr Heddlu wedi ymrwymo i gefnogi unigolion i ddatblygu eu gyrfa.

Er na amlinellwyd argymhellion penodol yn yr adroddiad, rwy'n cydnabod ei fod yn tynnu sylw at fater pwysig ar gyfer y system cyfiawnder troseddol gyfan. Bydd fy swyddfa'n sicrhau bod y pwnc yn parhau i gael ei fonitro trwy gyfarfodydd y Bwrdd Plismona a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.